

CYFARFOD: PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDDIAD: 25 MAI 2023

TEITL: CYFRIFON TERFYNOL 2022/23 – ALLDRO REFENIW

PWRPAS: EGLURO A CHRAFFU'R SEFYLLFA ARIANNOL TERFYNOL 2022/23

GWEITHREDIAD: Derbyn y wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2022/23.

SWYDDOG CYSWLLT: FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL

AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID

1. Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb "alldro", yn egluro sefyllfa terfynol 2022/23 ac yn dangos y darlun fesul adran. Y ffigyrau yma yw sail i'r datganiadau statudol fydd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
2. Cyn i'r adroddiad gael ei chyflwyno i'r Cabinet ar 13 Mehefin, cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, i'w chraffu.
3. Nodaf fod rhan 7 ac Atodiad 3 i'r adroddiad yma'n delio hefyd gyda'r adolygiad o gronfeydd y Cyngor.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau a sylwebu fel bo angen.

Atodiad:

Adroddiad Cabinet 13 Mehefin